

**2019 Rhif (Cy. )**

**2019 No. (W. )**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A494  
(Pwll-glas, ger Rhuthun, Sir  
Ddinbych) (Terfynau Cyflymder 50  
mya a 40 mya) 2019

The A494 Trunk Road (Pwllglas,  
Near Ruthin, Denbighshire) (50  
mph and 40 mph Speed Limits)  
Order 2019

*Gwnaed* 22 Mai 2019

*Made* 22 May 2019

*Yn dod i rym* 27 Mai 2019

*Coming into force* 27 May 2019

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A494, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 84(1)(a), (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A494 Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1)(a), (2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1) and after consultation with the Chief Officer of the North Wales Police, make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Pwll-glas, ger Rhuthun, Sir Ddinbych) (Terfynau Cyflymder 50 mya a 40 mya) 2019 a daw i rym ar 27 Mai 2019.

1. The title of this Order is the A494 Trunk Road (Pwllglas, Near Ruthin, Denbighshire) (50 mph and 40 mph Speed Limits) Order 2019 and it comes into force on 27 May 2019.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

2. (1) In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(2);

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(2);

---

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(2) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20).

---

(1) 1984 c.27; section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2). Section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(2) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), schedule 8 paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(4) and (5).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

- (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
- (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel.

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

### Cyfyngiadau

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

### Dirymu

5. Mae Gorchymyn Cefnffordd (Pwll-glas, Clwyd) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 1982(3) drwy hyn wedi ei ddirymu.

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

- (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
- (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds.

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A494 Dolgellau to South of Birkenhead Trunk Road.

(2) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

### Restrictions

3. No person may drive any vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 50 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

4. No person may drive any vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

### Revocation

5. The Trunk Road (Pwllglas, Clwyd) (40 MPH Speed Limit) Order 1982(3) is hereby revoked.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig

22 Mai 2019

Signed under authority of the Minister for Economy and Transport, one of the Welsh Ministers

Dated

22 May 2019

*Richard Morgan*

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

*Richard Morgan*

Head of Planning, Asset Management and Standards  
Welsh Government

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **TERFYN CYFLYMDER 50 MYA**

Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 90 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol wrth Bont Eyarth sy'n arwain at Lanfair Dyffryn Clwyd hyd at bwynt 691 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y gyffordd honno.

### **ATODLEN 2**

#### **TERFYN CYFLYMDER 40 MYA**

Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 90 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol wrth Bont Eyarth sy'n arwain at Lanfair Dyffryn Clwyd hyd at bwynt 1656 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

### **GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A494 (PWLLGLAS, GER RHUTHUN, SIR DDINBYCH) (TERFYNAU CYFLYMDER 50 MYA A 40 MYA) 2019**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 84(1)(a), (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 27 Mai 2019.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfynau cyflymder o 50 mya a 40 mya ar ddarnau o gefnffordd yr A494 ym Mhwll-glas, ger Rhuthun yn Sir Ddinbych fel a bennir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 23 Mai 2019 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell

## **SCHEDULES**

### **SCHEDULE 1**

#### **50 MPH SPEED LIMIT**

The length of the A494 Trunk Road that extends from a point 90 metres north of the centre-point of its junction with the County Road at Pont Eyarth bridge leading to Llanfair Dyffryn Clwyd to a point 691 metres north of the centre-point of that junction.

### **SCHEDULE 2**

#### **40 MPH SPEED LIMIT**

The length of the A494 Trunk Road that extends from a point 90 metres north of the centre-point of its junction with the County Road at Pont Eyarth bridge leading to Llanfair Dyffryn Clwyd to a point 1656 metres southwest of the centre-point of that junction.

### **THE A494 TRUNK ROAD (PWLLGLAS, NEAR RUTHIN, DENBIGHSHIRE) (50 MPH AND 40 MPH SPEED LIMITS) ORDER 2019**

The Welsh Ministers have made an Order in exercise of their powers under sections 84(1)(a), (2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 27 May 2019.

The effect of the Order is to impose 50 mph and 40 mph speed limits on lengths of the A494 trunk road at Pwllglas, near Ruthin in Denbighshire as specified in the Schedules to this Notice.

During a period of 6 weeks from 23 May 2019, a copy of the Order and plan may be inspected, free of charge, during normal opening hours at Ruthin

Rhuthun, Stryd y Llys, Rhuthun LL15 1DS neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu'r cyfeirnod qA1280675.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate](http://www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate) Llywodraeth Cymru ar [www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate](http://www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate) (detholer: Offerynnau statudol lleol/ Gorchmynion traffig parhaol/ 2019).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

Library, Record Street, Ruthin LL15 1DS or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1280675.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate](http://www.gweddill.gov.wales/legislation/subordinate) (select: Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2019).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

## **YR ATODLENNI**

### **ATODLEN 1**

#### **TERFYN CYFLYMDER 50 MYA**

Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 90 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol wrth Bont Eyarth sy'n arwain at Lanfair Dyffryn Clwyd hyd at bwynt 691 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt y gyffordd honno.

### **ATODLEN 2**

#### **TERFYN CYFLYMDER 40 MYA**

Y darn o gefnffordd yr A494 sy'n ymestyn o bwynt 90 o fetrau i'r gogledd o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd sirol wrth Bont Eyarth sy'n arwain at Lanfair Dyffryn Clwyd hyd at bwynt 1656 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt y gyffordd honno.

## **SCHEDULES**

### **SCHEDULE 1**

#### **50 MPH SPEED LIMIT**

The length of the A494 Trunk Road that extends from a point 90 metres north of the centre-point of its junction with the County Road at Pont Eyarth bridge leading to Llanfair Dyffryn Clwyd to a point 691 metres north of the centre-point of that junction.

### **SCHEDULE 2**

#### **40 MPH SPEED LIMIT**

The length of the A494 Trunk Road that extends from a point 90 metres north of the centre-point of its junction with the County Road at Pont Eyarth bridge leading to Llanfair Dyffryn Clwyd to a point 1656 metres southwest of the centre-point of that junction.

